TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# SEICOLEG

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU



## MANYLEB

Addysgu o 2015

I'w ddyfarnu o 2016 (UG)
I'w ddyfarnu o 2017 (Safon Uwch)

Fersiwn 6 Awst 2026

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

# CRYNODEB O'R NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll. | 22 |
| 3 | Dilëwyd teitlau Ymchwiliad Personol 2018 a 2019, ac ychwanegwyd teitlau newydd ar gyfer Ymchwiliadau Personol 2022 a 2023 at Atodiad B. | 26 |
| 4 | Dilëwyd teitlau Ymchwiliad Personol 2020 a 2021, ac ychwanegwyd teitlau newydd ar gyfer Ymchwiliadau Personol 2024 a 2025 at Atodiad B. | 26 |
| 5 | Dilëwyd teitlau Ymchwiliad Personol 2022 a 2023, ac ychwanegwyd teitlau newydd ar gyfer Ymchwiliadau Personol 2026 a 2027 at Atodiad B. | 26 |
| 6 | Dilëwyd teitlau Ymchwiliad Personol 2024 a 2025, ac ychwanegwyd teitlau newydd ar gyfer Ymchwiliadau Personol 2028 a 2029 at Atodiad B. | 26 |

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a Safon Uwch SEICOLEG CBAC

## I'w addysgu o 2015
## I'w dyfarnu o 2017

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

Tudalen


| | | |
|---|---|---|
| Crynodeb o'r asesu | | 3 |
| 1. | Rhagarweiniad | 5 |
| | 1.1 Nodau ac amcanion | 5 |
| | 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant | 6 |
| | 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg | 6 |
| | 1.4 Bagloriaeth Cymru | 7 |
| | 1.5 Persbectif Cymreig | 7 |
| 2. | Cynnwys y pwnc | 8 |
| | 2.1 Unedau UG | 8 |
| | 2.2 Unedau U2 | 16 |
| 3. | Asesu21 | |
| | 3.1 Amcanion asesu a phwysoli | 22 |
| 4. | Gwybodaeth dechnegol | 23 |
| | 4.1 Cofrestru | 23 |
| | 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 24 |
| Atodiad A: Gofynion mathemategol ac enghreifftiau | | 25 |
| Atodiad B: Ymchwiliadau Personol | | 26 |


© WJEC CBAC Ltd.

# TAG SEICOLEG (Cymru)
## CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

**UG (2 Uned)**

UG Uned 1
Seicoleg: O'r Gorffennol i'r Presennol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster 80 marc

Cwestiynau gorfodol yn ymwneud â phum ymagwedd seicolegol a darnau clasurol o ymchwil.

UG Uned 2
Seicoleg: Defnyddio Cysyniadau Seicolegol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster 80 marc

**Adran A: Dadleuon Cyfoes**
Un cwestiwn sy'n ymwneud â'r dadleuon a roddwyd.

**Adran B: Egwyddorion ymchwil a chymhwyso dulliau ymchwil**

**Egwyddorion ymchwil**
Cwestiynau gorfodol ar ddamcaniaeth ymchwil seicolegol (gan gynnwys gwaith seicolegwyr cymdeithasol a datblygiadol).

**Cymhwyso dulliau ymchwil at senario newydd**
Cwestiynau gorfodol yn gofyn am ymateb i ddarn o ymchwil nas gwelwyd o'r blaen.

**Safon Uwch (yr uchod ynghyd â 2 uned bellach)**

U2 Uned 3
Seicoleg: Goblygiadau yn y Byd Real
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
40% o'r cymhwyster 100 marc

**Adran A: Astudio Ymddygiadau**
Dewis tri thraethawd strwythuredig o ddewis o chwech.

**Adran B: Materion dadleuol mewn seicoleg**
Dewis un cwestiwn o ddau sy'n gofyn am archwiliad synoptig o faterion dadleuol seicolegol.

U2 Uned 4
Seicoleg: Dulliau Ymchwil Cymhwysol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster 60 marc

**Adran A: Ymchwiliadau Personol**
Cwestiynau gorfodol yn seiliedig ar weithgareddau ymchwiliol a wnaed cyn yr asesiad.

**Adran B: Cymhwyso dulliau ymchwil at senarios newydd**
Cwestiynau gorfodol yn gofyn am ymateb i ddarnau o ymchwil.

© WJEC CBAC Ltd.

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017.

**Rhif y Cymhwyster ar restr The Register:**
**TAG UG: 601/5759/8**
**TAG Safon Uwch: 601/5719/7**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr QiW:**
**TAG UG: C00/0723/7**
**TAG Safon Uwch: C00/0723/6**

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH SEICOLEG

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1. Nodau ac amcanion

Mae manyleb Safon Uwch Seicoleg CBAC yn ysgogol, nodedig a deniadol, ac yn cynnig digonedd o gyfleoedd i ddysgwyr astudio:

- amrywiaeth o ymagweddau seicolegol, yn eu plith rhai esblygiadol, positif a seicodynamig
- darnau arwyddocaol o ymchwil yn ymdrin ag amrywiaeth o bersbectifau a thestunau
- realaeth cymhwyso gwybodaeth seicolegol at sefyllfaoedd bob dydd
- sut mae data seicolegol yn cael eu casglu (drwy eu hymchwil eu hunain).

Mae'r fanyleb yn annog dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o wahanol feysydd seicoleg a sut mae'r meysydd hyn yn cysylltu â'i gilydd
- datblygu a dangos gwerthfawrogiad dwys o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau gwyddonol seicoleg
- datblygu cymhwysedd a hyder mewn amrywiaeth o sgiliau ymarferol, mathemategol a datrys problemau
- datblygu eu diddordeb a'u brwdfrydedd am seicoleg, gan gynnwys datblygu diddordeb mewn astudiaeth bellach ac i ddilyn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â'r pwnc, a
- deall sut mae'r gymdeithas yn gwneud penderfyniadau am faterion seicolegol a sut mae seicoleg yn cyfrannu at lwyddiant yr economi a'r gymdeithas.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol, er y bydd rhai dysgwyr eisoes wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o feysydd perthnasol o astudio Seicoleg ar lefel TGAU. I'r mwyafrif, fodd bynnag, bydd seicoleg yn bwnc cwbl newydd. Byddai'n ddymunol i ddysgwyr fod wedi ennill Graddau A*-C TGAU, neu gymhwyster cywerth, mewn Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a/neu'r Gwyddorau cyn dechrau ar y fanyleb hon, er nad oes angen unrhyw gymhwyster ffurfiol. Gall unrhyw ymgeisydd astudio'r fanyleb hon beth bynnag fo eu rhyw, neu gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac, o'r herwydd, mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

Mae'r fanyleb hon yn sylfaen addas ar gyfer astudio Seicoleg, neu faes perthynol ar nifer o gyrsiau addysg uwch (e.e. rhaglenni ym meysydd y gyfraith, addysg, meddygaeth a'r gwyddorau cymdeithasol); i symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol (e.e. ym meysydd gofal, rheoli chwaraeon neu fusnes); neu i fynd yn syth i'r byd gwaith. Mae'r fanyleb hon hefyd yn cynnig cwrs astudio cydlynol, boddhaol a gwerthfawr ar gyfer dysgwyr na fyddant yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach gan gynnig cyfleoedd i ennill sgiliau i'w cymhwyso mewn nifer helaeth o leoliadau academaidd neu alwedigaethol.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ymgeiswyr barhau i ddysgu gydol oes. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. gwneud cais am amser ychwanegol mewn pwnc TAG lle mae gofyn ysgrifennu'n estynedig). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.* Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Graidd Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Bwriad y fanyleb hon yw sicrhau bod dysgwyr yn meithrin gwerthfawrogiad cynhwysfawr o natur seicoleg ac ymholiad seicolegol. Yn y fanyleb, cyflwynir dysgwyr i ymagweddau hanesyddol a chyfredol ar seicoleg ac ymchwil clasurol a chyfoes. Yn ogystal â hynny mae cyfleoedd i archwilio materion dadleuol a dadleuon seicolegol. Bydd dysgwyr hefyd yn astudio amrywiaeth o ddulliau mae seicolegwyr yn eu defnyddio ac yn cynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Bydd pwyslais ar ystyried materion moesegol a goblygiadau ymdrechion seicolegol ymhob agwedd ar y fanyleb.

Mae'r cynnwys yn ysgogol, perthnasol a hygyrch i amrywiaeth eang o ddysgwyr, gan sicrhau bod lled a dyfnder i'r astudiaeth o seicoleg.

## 2.1 UNEDAU UG

### Uned 1

**Seicoleg: O'r Gorffennol i'r Presennol**

- Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
- 20% o'r cymhwyster Safon Uwch (50% o'r cymhwyster UG)

Pwrpas yr uned hon yw rhoi sylfaen gadarn yn rhai o elfennau craidd sylfaenol seicoleg. Y bwriad felly yw caniatáu i'r dysgwr, drwy astudio ymchwil clasurol, ddod i werthfawrogi bod seicoleg yn parhau i ddatblygu ac esblygu. Ni ddylid diystyru'r syniadau cynnar, yn hytrach na hynny, dylid eu hastudio mewn cyd-destun gan ystyried y datblygiadau a wnaed mewn blynyddoedd diweddarach.

Gan gyfeirio at bob un o'r pum ymagwedd seicolegol (biolegol, seicodynamig, ymddygiadol, gwybyddol a phositif) bydd yn ofynnol i ddysgwyr wneud y canlynol:

- gwybod a deall y tybiaethau
- cymhwyso'r tybiaethau i egluro ffurfio perthynas
- gwybod a deall sut mae'n bosibl defnyddio'r ymagwedd mewn therapi (un therapi i bob ymagwedd)
- gwybod a deall prif elfennau'r therapi dan sylw
- gwerthuso'r therapi (gan gynnwys ei effeithlonrwydd ac ystyriaethau moesegol)
- gwerthuso'r ymagwedd (gan gynnwys cryfderau, gwendidau a'i chymharu â'r pedair ymagwedd arall)
- gwybod, deall a mynegi barn ar ddarn clasurol o dystiolaeth (gan gynnwys methodoleg, dulliau gweithredu, canfyddiadau, casgliadau a materion moesegol a goblygiadau cymdeithasol).

© WJEC CBAC Ltd.

**Uned 1: Cynnwys i'w addysgu**

| Ymagwedd | Tybiaethau (yn cynnwys) | Therapi (un i bob ymagwedd) | Ymchwil clasurol |
|---|---|---|---|
| Biolegol | • dylanwadau esblygiadol<br>• lleoliad swyddogaeth yr ymennydd<br>• niwrodrosglwyddyddion | therapi cyffuriau<br><br>NEU<br><br>seicolawdriniaeth | Raine, A., Buchsbaum, M. a LaCasse, L. (1997) Annormaleddau yn ymennydd llofruddion wedi'u dangos gan domograffeg allyrru positronau. Biological Psychiatry, 42(6), 495-508 |
| Seicodynamig | • dylanwad profiadau plentyndod<br>• y meddwl anymwybodol<br>• personoliaeth dridarn | dadansoddi breuddwydion<br><br>NEU<br><br>seicotherapi dadansoddi grŵp | Bowlby, J. (1944) Pedwar deg pedwar o ladron ifanc: Eu cymeriad a'u bywyd cartref. International Journal of Psychoanalysis, 25 (19-52), 107 - 127 |
| Ymddygiadol | • llechen lân<br>• ymddygiad wedi'i ddysgu drwy gyflyru<br>• bodau dynol ac anifeiliaid yn dysgu mewn ffyrdd tebyg | therapi anghymell<br><br>NEU<br><br>dadsensiteiddio systematig | Watson, J.B. a Rayner, R. (1920) Ymatebion emosiynol cyflyredig. Journal of Experimental Psychology, 3(1), 1-14 |
| Gwybyddol | • cydweddiad cyfrifiadur<br>• prosesau meddyliol mewnol<br>• sgemâu | therapi ymddygiadol gwybyddol<br><br>NEU<br><br>therapi ymddygiadol rhesymoli emosiwn | Loftus, E.F. a Palmer, J.C. (1974), Ail-lunio dinistrio ceir: enghraifft o'r rhyngweithiad rhwng iaith a'r cof. Journal of Verbal Learning and Verbal Behaviour, 13, 585-589 |
| Positif | • cydnabod ewyllys rydd<br>• dilysrwydd daioni a rhagoriaeth<br>• canolbwyntio ar 'y bywyd da' | meddylgarwch<br><br>NEU<br><br>therapi ansawdd bywyd | Myers, D.G. a Diener, E. (1995) Pwy sy'n hapus? Psychological Science 6(1) 10-17 |
| Bydd disgwyl i ddysgwyr gymhwyso un o'r tybiaethau a roddwyd o bob ymagwedd at ffurfio perthynas. | | | |

*Teitlau Saesneg yr ymchwil clasurol:

Raine, A., Buchsbaum, M. and LaCasse, L. (1997) *Brain abnormalities in murderers indicated by positron emission tomography*. Biological Psychiatry, 42(6), 495-508

Bowlby, J. (1944) *Forty-four juvenile thieves: Their characters and home life*. International Journal of Psychoanalysis, 25 (19-52), 107 – 127

Watson, J.B. and Rayner, R. (1920) *Conditioned emotional reactions*. Journal of Experimental Psychology, 3(1), 1-14

Loftus, E.F. and Palmer, J.C. (1974), *Reconstruction of automobile destruction: an example of the interaction between language and memory*. Journal of Verbal Learning and Verbal Behaviour, 13, 585-589

Myers, D.G. and Diener, E. (1995) *Who is happy?* Psychological Science 6(1) 10-17

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 2

**Seicoleg: Defnyddio Cysyniadau Seicolegol**

- Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
- 20% o'r cymhwyster Safon Uwch (50% o'r cymhwyster UG)

**Adran A – Dadleuon Cyfoes**
Mae archwilio pum dadl gyfoes yn cynnig cyfle i ymchwilio'n annibynnol i feysydd y dylanwadodd seicoleg arnynt. Dylid ystyried dwy ochr y ddadl o bersbectif seicolegol (gan gynnwys y goblygiadau moesegol, cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag ystyried amrywiaeth gymdeithasol a diwylliannol). Gofynnir i ddysgwyr archwilio'r dadleuon gan ddefnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pum ymagwedd yn Uned 1. Mae'r adran hon yn cynnig cyfle i ystyried gwaith seicolegol a gyflawnwyd yng Nghymru.

**Adran B – Egwyddorion ymchwil a chymhwyso dulliau ymchwil**

**Egwyddorion ymchwil**
Canolbwynt yr adran hon yw ymchwil seicolegol, o'r camau cynllunio cynnar hyd at y cam olaf o ddadansoddi a gwerthuso. Y bwriad yw cyflwyno ymgeiswyr i'r methodolegau a ddefnyddiwyd gan seicolegwyr wrth weithio'n wyddonol, ac i feithrin gwerthfawrogiad o effaith dewisiadau ar ganlyniadau'r gwaith ac o ganlyniad, y cymwysiadau posibl. Dylai dysgwyr werthfawrogi cyfyngiadau ymchwil gwyddonol wrth ddelio â chymhlethdodau bodau dynol fel deunydd prawf, gan fod nifer o faterion i'w hystyried. Er mwyn cael y gwerthfawrogiad hwn anogir dysgwyr i gynnal ymchwiliadau moesegol, dan oruchwyliaeth briodol. O ran cyd-destun priodol yr addysgu, dylid astudio dau ddarn o ymchwil o waith seicolegwyr cymdeithasol a datblygiadol.

**Cymhwyso dulliau ymchwil at senario newydd**
Yn yr adran hon mae gofyn i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ymchwil at senario ymchwil newydd, gan lunio barn am fanylion ymchwil seicolegol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Uned 2:  Cynnwys i'w addysgu**

**Adran A:  Dadleuon Cyfoes**

Dylai dysgwyr:

- deall beth sydd wrth wraidd y ddadl
- cyfeirio at astudiaethau a damcaniaethau seicolegol
- archwilio'r ddwy ochr i'r ddadl gyfoes o bersbectif seicolegol (gan gynnwys y goblygiadau moesegol, economaidd a chymdeithasol)

| **Y dadleuon** |
|---|
| moeseg niwrowyddoniaeth |
| y fam fel prif ofalwr baban |
| defnyddio technegau cyflyru i reoli ymddygiad plant |
| dibynadwyedd tystiolaeth llygad-dyst (gan gynnwys plant) |
| pa mor berthnasol yw seicoleg bositif yng nghymdeithas heddiw |

© WJEC CBAC Ltd.

## Adran B: Egwyddorion ymchwil a chymhwyso dulliau ymchwil

| Bydd disgwyl i ddysgwyr gyfleu |
|---|
| Gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthusiad o:<br><br>**Seicoleg Gymdeithasol:**<br>Milgram, S. (1963). Astudiaeth ymddygiadol o ufudd-dod. Journal of Abnormal and Social Psychology, 67, 371-8<br><br>**Seicoleg Ddatblygiadol:**<br>Kohlberg, L. (1968). Y plentyn fel athronydd moesol. Psychology Today, 2, 25-30 |
| **Penderfynu ar gwestiwn ymchwil**<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br><br>• nod yr ymchwil<br>• rhagdybiaethau ymchwil<br>• rhagdybiaethau amgen (neu arbrofol)<br>• rhagdybiaethau cyfeiriol ac anghyfeiriol<br>• rhagdybiaethau nwl<br>• newidynnau annibynnol<br>• newidynnau dibynnol<br>• cyd-newidynnau<br>• gweithredoli newidynnau<br>• newidynnau dryslyd<br>• newidynnau allanol |

*Teitlau Saesneg yr ymchwil:

Milgrams, S. (1963) *Behavioral study of obedience*, Journal of Abnormal and Social Psychology, 67, 371-8

Kohlberg, L. (1968) *The child as a moral philosopher*, Psychology Today, 2, 25-30

© WJEC CBAC Ltd.

**Methodolegau**

Gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthusiad o:

- arbrofion
- lled-arbrofion (gan gynnwys arbrofion naturiol)
- arsylwi cyfranogol
- arsylwi anghyfranogol
- dadansoddi cynnwys
- holiaduron / cyfweliadau strwythuredig
- cyfweliadau lled-strwythuredig
- astudiaethau cydberthynol
- astudiaethau achos
- hunanadroddiadau

Dylid cynnwys data meintiol a data ansoddol.

Dylid cynnwys ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd.

**Lleoliad ymchwil**

Gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthusiad o:

- cynnal ymchwil mewn amgylchedd labordy
- cynnal ymchwil yn y maes
- cynnal ymchwil ar-lein

**Cyfranogwyr**

Gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthusiad o:

- poblogaethau targed
- fframiau samplu
- hapsamplu
- samplu cyfle
- samplu systematig
- samplu haenedig
- samplu cwotâu
- samplu hunan-ddetholedig
- samplu pelen eira
- technegau samplu arsylwi (gan gynnwys samplu digwyddiad, samplu amser)

© WJEC CBAC Ltd.

| |
|---|
| **Cynllunio arbrawf**<br><br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthusiad o:<br><br>• grwpiau annibynnol<br>• ailadrodd mesurau<br>• parau cyffredin |
| **Lefelau mesur**<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br><br>• data enwol<br>• data trefnol<br>• data cyfwng<br>• data cymhareb |
| **Cynrychioliad graffigol**<br><br>Gwybod am, a gallu creu a dehongli:<br><br>• tablau amlder<br>• cynrychioliad graffigol (gan gynnwys graffiau llinell, histogramau, siartiau bar, siartiau cylch, diagramau gwasgariad) |
| **Ystadegau Disgrifiadol**<br><br>Gwybod am, gwerthuso, dehongli, amcangyfrif a chyfrifo:<br><br>• mesurau canolduedd (gan gynnwys cymedr $\frac{\sum x}{n}$ , canolrif a modd)<br>• mesurau gwasgariad (gan gynnwys amrediad a gwyriad safonol $\sqrt{\frac{\sum(x-\bar{x})^2}{n-1}}$) |
| **Dibynadwyedd**<br><br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad o:<br><br>• dibynadwyedd mewnol<br>• dibynadwyedd allanol<br>• ffyrdd o ymdrin â materion dibynadwyedd |

© WJEC CBAC Ltd.

| |
|---|
| **Dilysrwydd**<br><br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad o:<br><br>• dilysrwydd mewnol<br>• dilysrwydd allanol<br>• materion dilysrwydd penodol (gan gynnwys tuedd yr ymchwilydd, nodweddion awgrymu ymateb, dymunolrwydd cymdeithasol)<br>• ffyrdd o ymdrin â materion dilysrwydd |
| **Moeseg**<br><br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad o:<br><br>• cyfrinachedd<br>• twyll<br>• y risg o straen, pryder, cywilydd neu boen<br>• y risg i werthoedd, credoau, perthnasoedd, statws neu breifatrwydd cyfranogwyr<br>• cydsyniad dilys<br>• gweithio gydag unigolion sy'n agored i niwed (gan gynnwys plant)<br>• gweithio gydag anifeiliaid<br>• ffyrdd o ymdrin â materion moesegol (gan gynnwys pwyllgorau moeseg, canllawiau moesegol ac adrodd yn ôl) |

Dylech gyfeirio hefyd at Atodiad A am restr lawn o'r sgiliau mathemategol angenrheidiol. Nid yw'r rhai mewn print **bras** yn berthnasol i Uned 2.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.2 UNEDAU U2

## Uned 3

**Seicoleg: Goblygiadau yn y Byd Real**

- Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
- 40% o'r cymhwyster Safon Uwch

Ar ôl dysgu am yr amrywiol ymagweddau seicolegol yn uned 1, mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon at ymddygiadau bodau dynol/anifeiliaid. Dylai dysgwyr allu egluro a thynnu casgliadau am achosion posibl yr ymddygiadau hyn a deall bod gan seicoleg, felly, y potensial i effeithio ar y gymdeithas yn gyffredinol drwy ddatblygu dulliau o addasu ymddygiad. Yn ogystal â hynny, dylai dysgwyr archwilio pum mater dadleuol sy'n parhau i fod yn her i faes seicoleg. Gellir ystyried y materion dadleuol hyn yn synoptig a defnyddio'r cynnwys o'r fanyleb gyfan.

**Adran A: Astudio Ymddygiadau**

Mae'n rhaid i ddysgwyr ddewis astudio tri o'r chwe ymddygiad a nodir. I bob ymddygiad bydd yn ofynnol i ddysgwyr:

- gwybod am nodweddion yr ymddygiad
- gwybod a deall esboniadau biolegol, gwahaniaethau unigol ac esboniadau seicolegol gymdeithasol am yr ymddygiad
- gwerthuso'r esboniadau biolegol, gwahaniaethau unigol ac esboniadau seicolegol gymdeithasol am yr ymddygiad
- cymhwyso'r esboniadau at ddulliau o addasu'r ymddygiad
- gwybod a deall y dulliau o addasu'r ymddygiad
- gwerthuso'r dulliau o addasu'r ymddygiad (gan gynnwys eu heffeithiolrwydd, goblygiadau moesegol a'u goblygiadau cymdeithasol).

**Adran B: Materion Dadleuol**

I bob mater dadleuol bydd yn ofynnol i ddysgwyr:

- deall y mater a pham ei fod yn ddadleuol
- cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at faterion dadleuol mewn seicoleg
- llunio barn a dod i gasgliadau am y materion dadleuol o bersbectif seicolegol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Uned 3: Cynnwys i'w addysgu**

| | **Esboniadau biolegol (o leiaf dau)** | **Esboniadau gwahaniaethau unigol (o leiaf dau)** | **Esboniadau seicoleg gymdeithasol (o leiaf dau)** | **Dulliau o addasu'r ymddygiad hwn (o leiaf dau)** |
|---|---|---|---|---|
| **Ymddygiadau caethiwus** | Er enghraifft<br>• genynnau caethiwus<br>• clefyd yr ymennydd<br>• dopamin | Er enghraifft<br>• tueddiadau gwybyddol<br>• dibyniaeth maes<br>• nodweddion personoliaeth gaethiwus Lang | Er enghraifft<br>• cyd-glefydedd gydag afiechyd meddwl<br>• pwysau gan gyfoedion<br>• rôl y cyfryngau | Gan gynnwys<br>• amnewid gweithydd a gwrthweithydd<br>• therapi anghymell |
| **Ymddygiadau'r sbectrwm awtistig** | Er enghraifft<br>• camweithrediad amygdala<br>• ïonau clorid ar enedigaeth<br>• rhagdueddiad genetig | Er enghraifft<br>• gwahaniaethau rhywedd<br>• theori o feddwl<br>• theori cydlyniad canolog gwan | Er enghraifft<br>• ymddygiad gwrywol<br>• theori empatheiddio-systemeiddio<br>• mam oergell | Gan gynnwys<br>• System Cyfathrebu drwy gyfnewid Darlun (Picture Exchange Communication System) (PECS)<br>• Ymyriad Datblygu Perthynas |
| **Ymddygiadau bwlio** | Er enghraifft<br>• genynnau bwlio gwahaniaethau rhywedd wedi esblygu<br>• hormonau | Er enghraifft<br>• tueddiadau gwybyddol<br>• personoliaeth narsisaidd<br>• theori o feddwl | Er enghraifft<br>• gwahaniaethau diwylliannol<br>• mewn-grŵp / all-grŵp<br>• datgyweddiad moesol | Gan gynnwys<br>• Creu Amgylchedd Dysgu Tawel mewn Ysgol (CAPSLE)<br>• Rhaglen atal bwlio Olweus |
| **Ymddygiadau troseddol** | Er enghraifft<br>• rhagdybiaeth diluddiannu (disinhibition hypothesis)<br>• troseddoldeb etifeddol<br>• rôl amygdala | Er enghraifft<br>• personoliaeth droseddol Eysenck<br>• ffactorau deallusrwydd<br>• personoliaeth seicopathig | Er enghraifft<br>• theori cysylltiad gwahaniaethol<br>• cymdeithasoli rhywedd<br>• theori normaleiddio | Gan gynnwys<br>• rheoli dicter<br>• cyfiawnder adferol |
| **Sgitsoffrenia** | Er enghraifft<br>• dylanwad canabis ar gemeg yr ymennydd<br>• rhagdybiaeth dopamin<br>• fentriglau wedi'u helaethu | Er enghraifft<br>• anhwylder meddwl<br>• mam sgitsoffrenogenig<br>• gwahaniaethau rhyw | Er enghraifft<br>• normau diwylliannol<br>• teuluoedd camweithredol<br>• mynegiad emosiwn | Gan gynnwys<br>• cyffur gwrthseicotig<br>• therapi ymddygiadol gwybyddol |
| **Straen** | Er enghraifft<br>• adrenalin<br>• ymaddasiad esblygiadol<br>• genynnau straen | Er enghraifft<br>• gwydnwch<br>• hunaneffeithiolrwydd<br>• personoliaethau Math A, Math B | Er enghraifft<br>• trafferthion dyddiol<br>• digwyddiadau bywyd<br>• locws rheolaeth | Gan gynnwys<br>• beta atalyddion<br>• hyfforddiant gwrthsefyll straen |

© WJEC CBAC Ltd.

| **Materion dadleuol mewn seicoleg** | **Archwiliad o'r materion dadleuol i gynnwys** |
|---|---|
| **Tuedd Ddiwylliannol** | • astudiaethau trawsddiwylliannol<br>• gwahaniaeth neu duedd<br>• ethnosentrigrwydd<br>• cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol |
| **Costau moesegol cynnal ymchwil** | • buddion i gymdeithas<br>• cyfranogwyr unigol<br>• canlyniadau negatif posibl i gymdeithas<br>• defnyddio canllawiau moesegol |
| **Anifeiliaid nad ydynt yn fodau dynol** | • Canllawiau BPS i Seicolegwyr sy'n Gweithio gydag Anifeiliaid<br>• seicoleg gymharol / etholegol<br>• defnyddio fel dyfais therapiwtig<br>• rhywogaethiaeth |
| **Statws gwyddonol** | • buddion bod yn wyddor<br>• y newid yn natur 'gwyddoniaeth'<br>• costau bod yn wyddor<br>• methodolegau a ddefnyddir gan y gwahanol ymagweddau |
| **Rhywiaeth** | • gwahaniaeth rhywedd neu duedd rhywedd<br>• heterorywiaeth<br>• cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol<br>• 'anweledigrwydd' menywod mewn seicoleg |

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 4

### Seicoleg: Dulliau Ymchwil Cymhwysol

- Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
- 20% o'r cymhwyster Safon Uwch

### Adran A: Ymchwiliadau Personol

Mae'n angenrheidiol i ddysgwyr wybod a deall y methodolegau a ddefnyddir mewn seicoleg, a gallu gwerthuso cryfderau a gwendidau'r rhain. Er mwyn sicrhau bod ganddynt wir werthfawrogiad o'r methodolegau hyn mae disgwyl i ddysgwyr gael profiad uniongyrchol o ddau ddull ymchwil. Gofynnir i ddysgwyr ymateb yn yr asesiad i gwestiynau'n ymwneud â'r ymchwiliadau hyn. Amlinellir yn Atodiad B y ddau ymchwiliad sy'n ofynnol bob blwyddyn. Anogir dysgwyr i ddefnyddio TGCh wrth ymchwilio, dylunio, dadansoddi a chyflwyno'u hymchwiliad. Bydd disgwyl iddynt wedyn ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt am ddulliau ymchwil ym mhob ymchwiliad, gan gynnwys yr agweddau canlynol: rhagdybiaethau; newidynnau; methodoleg (gan gynnwys cynllunio arbrawf os yn briodol); samplu; ystadegau disgrifiadol; cynrychioliadau graffigol; ystadegau casgliadol; dibynadwyedd; dilysrwydd moeseg.

### Adran B: Cymhwyso dulliau ymchwil at senarios newydd

Yn ail agwedd y gydran hon dylai dysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ymchwil at senarios ymchwil newydd, gan lunio barn am fanylion ymchwil seicolegol.

Cynnwys i'w addysgu (yn ychwanegol at y cynnwys o Uned 2, Adran B)

| **Bydd disgwyl i ddysgwyr gyfleu:** |
|---|
| **Methodoleg**<br><br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthusiad o:<br><br>• sganio'r ymennydd<br>• astudiaethau hydredol<br>• astudiaethau trawstoriadol |
| **Asesu dibynadwyedd**<br><br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad o:<br><br>• dibynadwyedd rhyng-raddwyr<br>• dibynadwyedd prawf-ailbrawf<br>• dibynadwyedd hollt dau hanner |

© WJEC CBAC Ltd.

| |
|---|
| **Asesu dilysrwydd**<br><br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad o:<br><br>• dilysrwydd cydamserol<br>• dilysrwydd rhagfynegi<br>• dilysrwydd wyneb<br>• dilysrwydd cynnwys<br>• dilysrwydd lluniad |
| **Cynrychioliad graffigol**<br><br>Gwybod am, a gallu creu a dehongli:<br><br>• cromliniau dosraniad<br>• normal<br>• sgiw positif<br>• sgiw negatif |
| **Ystadegau Casgliadol**<br><br>Gwybodaeth, cymhwysiad a dehongliad addas o:<br><br>• Prawf Chi Sgwâr<br>• Prawf U Mann Whitney<br>• Prawf arwyddion<br>• Cyfernod Cydberthyniad Trefn Restrol Spearman<br>• prawf arwyddion graddedig parau tebyg Wilcoxon<br>• gwerthoedd tebygolrwydd<br>• lefelau arwyddocâd<br>• gwerthoedd wedi'u harsylwi (wedi'u cyfrifo)<br>• gwerthoedd critigol o dablau |

Gweler hefyd Atodiad A am restr lawn o'r sgiliau mathemategol angenrheidiol (mae'r holl sgiliau'n berthnasol i Uned 4)

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol

**AA2**
Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol:

- mewn cyd-destun damcaniaethol
- mewn cyd-destun ymarferol
- wrth ymdrin â data ansoddol
- wrth drin data meintiol

**AA3**
Dadansoddi, dehongli a gwerthuso amrywiaeth o wybodaeth, syniadau a thystiolaeth wyddonol, yn cynnwys mewn perthynas â materion, er mwyn:

- llunio barn a dod i gasgliadau
- datblygu a mireinio cynllun a gweithdrefnau gwaith ymarferol

Dangosir pwysoli'r amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn, mae pwysoli'r UG mewn cromfachau.

| Uned | Pwysoli'r Uned | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|
| **UG Uned 1** | 20% (50%) | 10% (25%) | 2.5% (6.25%) | 7.5% (18.75%) |
| **UG Uned 2** | 20% (50%) | 6% (15%) | 9.5% (23.75%) | 4.5% (11.25%) |
| **U2 Uned 3** | 40% | 12% | 10% | 18% |
| **U2 Uned 4** | 20% | 3.3% | 10% | 6.7% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **31.3%** | **32%** | **36.7%** |

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy’n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | Teitl | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| UG Uned 1 | O'r Gorffennol i'r Presennol | 2290U1 | 2290N1 |
| UG Uned 2 | Defnyddio Cysyniadau Seicolegol | 2290U2 | 2290N2 |
| U2 Uned 3 | Goblygiadau yn y Byd Real | 1290U3 | 1290N3 |
| U2 Uned 4 | Dulliau Ymchwil Cymhwysol | 1290U4 | 1290N4 |
| Cyfnewid Cymhwyster UG | | 2290QS | 2290CS |
| Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch | | 1290QS | 1290CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru ar gyfer y fanyleb hon gydag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch CBAC arall.

© WJEC CBAC Ltd.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | **Gradd yr uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoli'r Uned** | **Marc unffurf mwyaf yr uned** | **a** | **b** | **c** | **d** | **e** |
| **Uned 1 (20%)** | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Uned 2 (20%)** | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Uned 3%)** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **Uned 4 (20%)** | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a seilir gradd y pwnc ar y cyfanswm hwn.

| | | **Gradd y cymhwyster** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Marciau unffurf mwyaf** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Safon Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Ar gyfer Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD A

| Sgiliau Mathemategol | Enghreifftio gallu mathemategol yng nghyd-destun Safon Uwch Seicoleg (nid yw'r asesiad yn cael ei gyfyngu i'r enghreifftiau isod) |
|---|---|
| **Rhifyddeg a chyfrifiant rhifiadol** | |
| Adnabod a defnyddio mynegiadau ar ffurf ddegol a safonol | Trawsnewid data ar ffurf safonol o dabl canlyniadau i ffurf ddegol er mwyn llunio siart cylch |
| Defnyddio cymarebau, ffracsiynau a chanrannau | Cyfrifo canrannau'r achosion yn y categorïau gwahanol mewn astudiaeth arsylwi |
| Amcangyfrif canlyniadau | Gwneud sylwadau ar wasgariad sgorau ar gyfer set o ddata, a fyddai'n gofyn am amcangyfrif yr ystod |
| **Trin data** | |
| Defnyddio nifer priodol o ffigurau ystyrlon | Mynegi cyfernod cydberthyniad i ddau neu dri ffigur ystyrlon |
| Darganfod cymedrau rhifyddol | Cyfrifo cymedrau dau amod gan ddefnyddio data crai o arbrawf dosbarth |
| Llunio a dehongli tablau a diagramau amlder, siartiau bar a histogramau | Dewis a braslunio ffurf briodol o arddangos data ar gyfer set o ddata a roddwyd |
| Deall tebygolrwydd syml | Egluro'r gwahaniaeth rhwng y lefelau arwyddocâd 0.05 a 0.01 |
| Deall egwyddorion samplu o'u cymhwyso at ddata gwyddonol | Egluro sut y gellir cael hapsampl neu sampl haenedig o boblogaeth darged |
| Deall y termau cymedr, canolrif a modd | Egluro'r gwahaniaethau rhwng cymedr, canolrif a modd a dewis pa fesur canolduedd yw'r mwyaf priodol ar gyfer set o ddata a roddwyd |
| Defnyddio graff gwasgariad i adnabod cydberthyniad rhwng dau newidyn | Plotio dau newidyn o ymchwiliad ar ddiagram gwasgariad ac adnabod y patrwm fel cydberthyniad positif, cydberthyniad negatif neu dim cydberthyniad |
| Defnyddio prawf ystadegol | Cyfrifo prawf gwahaniaethau amharamedrig gan ddefnyddio data o arbrawf dosbarth |
| Gwneud cyfrifiad trefn maint | Amcangyfrif y sgôr prawf cymedrig ar gyfer nifer mawr o gyfranogwyr ar sail cyfanswm y sgôr |
| Gwahaniaethu rhwng lefelau mesur | Nodi'r lefel o fesur a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth (enwol, trefnol neu gyfwng) |
| Gwybod nodweddion gwasgariadau normal a gwasgariadau sgiw | Derbyn set o sgorau o arbrawf yn dangos gwasgariad cyffredin a chael cais i nodi safle'r cymedr (neu'r canolrif, neu'r modd) |
| Dewis prawf ystadegol priodol | Dewis prawf casgliadau addas ar gyfer eu hymchwiliad ymarferol eu hunain ac egluro pam mae'r prawf a ddewiswyd yn briodol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Defnyddio tablau ystadegol i ddarganfod arwyddocâd | Defnyddio detholiad o dablau ystadegol i ddweud a yw gwerth wedi ei arsylwi penodol yn arwyddocaol ar lefel arwyddocâd 0.05 ar gyfer prawf ungynffon neu beidio |
| Deall mesurau gwasgariad, gan gynnwys gwyriad safonol ac amrediad | Deall pam gallai gwyriad safonol fod yn fesur gwasgariad mwy defnyddiol ar gyfer set o sgorau a roddwyd e.e. lle mae canlyniad anghyson |
| Deall y gwahaniaethau rhwng data meintiol a data ansoddol | Egluro sut y gellir trawsnewid mesur ansoddol a roddwyd (er enghraifft, trawsgrifiad cyfweliad) yn ddata meintiol |
| Deall y gwahaniaeth rhwng data cynradd ac eilaidd | Nodi p'un ai a yw'r data a gasglwyd gan ymchwilydd sydd yn delio'n uniongyrchol â chyfranogwyr yn gynradd neu'n eilaidd. |
| **Algebra** | |
| Deall a defnyddio'r symbolau: $=, <, \leq, \geq, >, \propto, \approx$ | Mynegi canlyniad prawf casgliadau yn y ffurf gonfensiynol gan nodi lefel arwyddocâd ar y lefel 0.05 a'r lefel 0.01 gan ddefnyddio symbolau'n briodol |
| Amnewid gwerthoedd rhifiadol mewn hafaliadau algebraidd gan ddefnyddio unedau priodol ar gyfer symiau ffisegol | Mewnosod y gwerthoedd priodol o set o ddata a roddwyd i'r fformiwla ar gyfer prawf ystadegol e.e. mewnosod gwerth N (am nifer y sgorau) i'r fformiwla Chi Sgwâr |
| Datrys hafaliadau algebraidd syml | Cyfrifo graddau o ryddid ar gyfer prawf Chi Sgwâr |
| **Graffiau** | |
| Cyfnewid gwybodaeth rhwng ffurfiau graffigol, rhifiadol ac algebraidd | Defnyddio set o ddata rhifiadol (set o sgorau) i lunio graff bar |
| Plotio dau newidyn o ddata arbrofol neu ddata eraill | Lluniadu diagram gwasgariad o ddau set o ddata mewn ymchwiliad cydberthyniad |

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD B

**Uned 4: Ymchwiliadau Personol**

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r holl ddysgwyr gynnal dau ymchwiliad seicolegol fel y nodir isod:

| **Asesu** | **Ymchwiliad un** | **Ymchwiliad dau** |
|---|---|---|
| Haf 2026 | Cydberthyn amser ar y sgrin a chwsg. | Arbrawf ar iaith a cherddoriaeth. |
| Haf 2027 | Dadansoddiad cynnwys o gyfweliadau ar ôl gêm. | Arbrawf ar hwyluso cymdeithasol. |
| Haf 2028 | Arbrawf ar dalpio a chof tymor byr. | Astudiaeth holiadur ar y tywydd a hwyliau. |
| Haf 2029 | Cyfweliad ar ffactorau sy'n effeithio ar gwsg. | Arbrawf ar yr effaith safle cyfresol. |

Mae'n rhaid cadw at "The British Psychological Society's Code of Ethics and Conduct 2009" wrth weithredu ymchwiliadau. Cyfrifoldeb yr athro yw sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei gynnal yn briodol i'r dysgwyr.

Gall dysgwyr gasglu data fel unigolion, mewn parau neu mewn grwpiau y tu mewn neu'r tu allan i'r cyd-destun addysgol. Awgrymir cadw llyfr log o'r gwaith a fyddai'n gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth i'r asesiad (ni chaniateir mynd â'r llyfr hwn i mewn i'r ystafell arholiadau). Yr ymatebion i'r cwestiynau yn yr arholiad ysgrifenedig fydd yn ennill credyd yn hytrach na'r ymchwiliad ei hun. Gallai dysgwyr roi ystyriaeth i gyd-destun Cymreig eu hymchwil pe byddai'n briodol gwneud hynny.



© WJEC CBAC Ltd.